***Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel y Garn, bore Sul, 21 Mai 2006 am 10.30 o'r gloch***

Gair o groeso a galwad i addoli

*Arweinydd*: Rydym wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw,

*Pawb*: Ac nid ar ein pen ein hunain.

*Arweinydd*: Gyda'r angylion yn nef y nefoedd,

*Pawb*: Ymgasglwn i addoli'r Arglwydd.

*Arweinydd*: Gyda'r saint ym mhob oes,

*Pawb*: Ymgasglwn i addoli'r Arglwydd.

*Arweinydd*: Gyda'r eglwys ledled y byd,

*Pawb*: Ymgasglwn i addoli'r Arglwydd.

*Arweinydd*: Gan blant a babanod sy'n sugno'r fron,

*Pawb*: Molir enw sanctaidd Duw.

*Arweinydd*: Gyda thelynau, gitarau a thrwmpedi,

*Pawb*: Molir enw sanctaidd Duw.

*Arweinydd*: Yng nghanol ofnau a gobeithion am y dyfodol,

*Pawb*: Molir enw sanctaidd Duw.

*Arweinydd*: Ac yma gan ein calonnau a'n lleisiau,

*Pawb*: Molir enw sanctaidd Duw.

*Arweinydd*: Rydym wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw,

*Pawb*: Ac nid ar ein pen ein hunain.

*Emyn 412*: 'Cariad Crist sydd yn rhyfeddol'

*Gweddi*:
Am bob ymdrech ac am yr hyn a gyflawnwyd gan gefnogwyr Cymorth Cristnogol yn ystod y flwyddyn hon, diolch fo i Dduw. **Diolch fo i Dduw.**

Am yr holl waith a wnaed gan bobl yn ystod Wythnos Cymroth Cristnogol eleni, diolch fo i Dduw. **Diolch fo i Dduw.**

Am y gwahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud i fywydau llawer o'r bobl gyffredin sy'n ymdrechu i oresgyn tlodi, diolch fo i Dduw. **Diolch fo i Dduw.**

Offrymwn ein gweddïau i Dduw sy'n ein galw ni i gyhoeddi'r newyddion da am gariad Crist ac i garu ein gilydd. Amen.

*Darlleniad*:
Clywn am waith Cymorth Cristnogol yng nghyd-destun HIV/AIDS:

Mae 1.6 miliwn o bobl yn byw gyda HIV ac AIDS yn Ethiopia, ac mae mwy na miliwn o blant wedi colli eu rhieni oherwydd AIDS.

Mae dau o bartneriaid Cymorth Cristnogol, sef Mudiad Gwasanaethau Cymdeithasol AIDS ac Eglwys Uniongred Ethiopia, yn hyfforddi pobl ifanc yn Ethiopia i fod yn gynghorwyr er mwyn iddyn nhw gynnal pobl sy'n dioddef oherwydd effeithiau HIV ac AIDS.

Un o'r cynghorwyr ifanc hyn yw Friewion Aregaw.

Cafodd ei syfrdanu gan y ffordd yr oedd pobl yn trin gwraig mewn oed yn ei chymuned hi pan wnaethon nhw ddarganfod ei bod hi'n byw gydag HIV ac AIDS.

'Gadawyd y wraig hon ar ei phen ei hun. Roedd pawb wedi ei gadael ac roedd pawb yn siarad amdani. Doedd gen i ddim gwybodaeth am HIV felly fe es i at Fudiad Gwasanaethau Cymdeithasol AIDS a gofyn iddyn nhw: "Beth yw'r firws hwn?"'

Dechreuodd Mudiad Gwasanaethau Cymdeithasol AIDS ddysgu Friewion am HIV ac AIDS a rhoi tipyn o hyfforddiant cynghori iddi. Yn sgîl yr hyn a ddysgodd penderfynodd Friewion ymweld â'r wraig.

'Bob tro roeddwn i'n mynd heibio i'w thŷ,' meddai Friewion, 'roeddwn i'n gweld ei fod ar gau a'i fod yn fudr. Roeddwn i'n gwybod ei bod hi ar ei phen ei hun. Roeddwn i'n meddwl am y wraig druan ac roedd hynny'n fy ngwneud i'n drist. Hyn a'm gwthiodd i mewn i'r tŷ – er bod ofn arna i.'

Ymhen amser daeth y wraig yn barod i dderbyn cymorth Friewion ac mae Friewion yn ymweld â hi bob dydd. Mae hi nawr yn cynghori nifer o blant sydd wedi colli eu rhieni oherwydd AIDS, ac mae hefyd yn rhedeg gweithdai codi ymwybyddiaeth yn y carchar lleol.

Oherwydd y gefnogaeth y mae Cymorth Cristnogol wedi ei roi i Fudiad Gwasanaethau Cymdeithasol AIDS ac Eglwys Uniongred Ethiopia mae pobl ifanc fel Friewion yn medru cefnogi pobl sydd yn dioddef rhagfarn yn sgîl HIV ac AIDS.

Trwy ei gwaith dywed Friewion, 'Rydw i wedi sylweddoli fy mod i'n medru newid bywydau. Rydw i mor falch 'mod i'n medru gwneud.'

**Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol**
Cyfansoddwyd y weddi hon gan Friewion Aregaw

Arglwydd Dduw,
mae'r clefyd hwn yn ormod i ni ar ein pen ein hunain.

Os gweli di'n dda, Arglwydd, helpa bobl ifanc i ddileu HIV o Ethiopia.
Dyro i ni yr ewyllys a'r gallu i newid pethau.
Yr wyt ti'n medru gwneud unrhyw beth,
felly gweddïed yr holl bobl am hyn.
Ac fel yr ydyn ni wedi derbyn dy gariad,
felly bydded i ni garu a chynnal
ein gilydd.
Offrymwn y weddi hon yn enw Iesu.
Amen.

Emyn 410: 'Mae cariad Iesu yn llanw 'myd'

*Darlleniad*: Ioan 15: 1–8 'Iesu, y Wir Winwydden'

*Gweddïo dros eraill*:
Cydweddïwn,
Ti Iesu Grist yw'r winwydden
A ni yw'r canghennau;
Nid oes unrhyw ddau ddarn o'r goeden yr un fath,
Ond fe'n galwyd gennyt ti, yn yr hwn y mae ein gwreiddiau,
I fod yn ffyddlon ac yn ffrwythlon,
I berthyn, i garu, i weithredu ac i weddïo dros ein gilydd.

Wedi'n huno yn y winwydden, cofiwn mewn distawrwydd, am y llefydd a'r bobl sydd ym mhenawdau'r newyddion heddiw, sydd angen ein gweddïau.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cofiwn am y rheini sy'n byw gyda HIV/AIDS heddiw yn wynebu rhagfarn oherwydd anwybodaeth. Bydded i'w cyrff gael eu hesmwytho a'u hysbrydoedd eu nerthu i oresgyn y rhwystrau a osodir o'u blaen gan eraill.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cofiwn am y miliynau o bobl ifanc a gollodd eu rhieni o glefydau cysylltiedig â HIV ac sydd yn brwydro i oroesi mewn sychder neu newyn, yn ogystal ag afiechyd. Na fydded iddyn nhw weld marwolaeth heddiw ond yn hytrach obeithio am gael maeth yfory.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cofiwn am Friewion a phob un heddiw a fydd yn gofalu am, yn cynghori, ac yn dysgu oddi wrth bobl sydd yn byw gyda HIV/AIDS. Bydded iddyn nhw weld potensial pob person yn ogystal â'u problemau, gael eu cynnal eu hunain a thyfu mewn dealltwriaeth.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cofiwn am y llywodraethwyr a'r gwleidyddion hynny y mae

eu penderfyniadau yn effeithio ar fywydau miliynau er gwell neu er gwaeth.
Bydded iddyn nhw barchu urddas bywyd dynol a gwneud popeth yn eu gallu i symud beichiau'r tlawd.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cofiwn am y gymuned feddygol a'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda HIV/AIDS; gweddïwn dros y cwmnïoedd fferyllol sy'n datblygu cyffuriau a all achub bywydau. Bydded i'w hymdrechion i hybu iechyd fod yn llwyddiannus, ac na fydded iddyn nhw fyth gael eu temtio i roi elw o flaen pobl.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Gweddïwn dros waith Cymorth Cristnogol yn y byd. Na fydded i wirfoddolwyr a staff y mudiadau sy'n bartneriaid yn Ethiopia ac mewn mannau eraill fyth gael eu llethu yn wyneb angen dirfawr. Bydded iddyn nhw ddod o hyd i obaith yn y mannau mwyaf annisgwyl
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Gweddïwn drosom ni ein hunain, na fyddwn ni yn ein bywydau ein hunain yn anghofio nac yn troi i ffwrdd oddi wrth HIV ac AIDS; wedi'n gwreiddio yng Nghrist, bydded i ni dyfu'n fwy ffrwythlon er mwyn dwyn byd mwy cyfiawn a chariadus i fodolaeth.
Arglwydd yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Emyn 854: 'Yn gymaint iti gofio un o'r rhain'

*Darlleniad*: **'**Hyn a wnawn ni'

1. Hyn a wnawn ni: rhoi ein bara i'r llwglyd,
cysgod i'r gweiniaid a lloches sy'n glyd;
hyn a wnawn ni: dileu dyled, tosturio,
a cheisio lleddfu doluriau ein byd.

2. Hyn a wnawn ni: clirio llwybr drwy'r anial
sy'n arwain o ryfel at wynfyd hedd;
hyn a wnawn ni: gollwng cyrff a meddyliau
o'u cell i flodeuo ar newydd wedd.

3. Hyn a wnawn ni: dweud wrth bawb yn garedig
am Dduw sy'n ein gwâdd i'w wasanaethu ef;
a Christ sydd yn newid safonau'r ddaear,
a'u gwneud yn debyg i safonau'r nef.

4. Hyn a weddïwn: y bydd teyrnas nefoedd
a'i gwerthoedd yn amlwg nawr ar y llawr,

a'r holl genhedloedd yn ffrwyno uchelgais
i roi i bob plentyn ei gyfle yn awr.

5. Ac ni chiliwn ni os gwelwn ni rwystr
neu rai sy'n anfodlon newid eu cân,
Duw sydd ar waith yn creu byd sy'n fwy cyfiawn
ac ni ellir rhwystro ei Ysbryd Glân.

6. Hyn a wnawn ni: rhoi ein bara i'r llwglyd,
cysgod i'r gweiniaid a lloches sy'n glyd;
hyn a wnawn ni: dileu dyled, tosturio,
a cheisio lleddfu doluriau ein byd.

Anerchiad: Y Parchg Tom Defis

Cyhoeddiadau a chasgliad at Gymorth Cristnogol

Emyn 807: ‘Nid oes yng Nghrist’

*Gweddi i gloi*:

**A:** Gadawn y lle hwn gan ddiolch am bopeth sydd wedi bod.
**B:** Cerddwn y strydoedd gan gywilyddio at anghyfiawnder y presennol.
**C:** Dychwelwn i’n cartrefi gyda’n penderfyniad ynglŷn â’r dyfodol wedi cael ei atgyfnerthu.
**A:** Llawenhawn yn esiampl y rhai sydd wedi mynd o’n blaen ni.
**B:** Ymwrolwn i ymgymryd â’r dasg o ddwyn newyddion da.
**C:** Gan fentro! Ymdrechu! Gobeithio! Mentro!
**A:** Nes i ddioddefaint ddod i ben.
**B:** Nes i heddwch deyrnasu.
**C:** Nes i’r Deyrnas ddod.
**A:** Ni yw’r rhai sy’n edrych am ffyrdd newydd a gwell.
**B:** Ni yw’r rhai sy’n gweithio ac yn gweddïo am roi diwedd ar dlodi.
**C:** Ni yw pobl Dduw.
*Y 3 gyda’i gilydd*: **Sy’n mentro! Ymdrechu! Gobeithio! Mentro! Ni yw pobl Dduw.**